

Cael babi yn ardal Hywel Dda, yr hyn a ddywedoch chi wrthym

Tachwedd 2021



Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a / neu iaith arall, os gwelwch yn dda.

Gallwch ei lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau)	6
Cefndir	9
Yr hyn a wnaethom	11
Ein harolwg mamolaeth	14
Yr hyn a glywsom	15
...y sylwadau cadarnhaol	16
...y sylwadau negyddol	20
Geni plentyn ym myd Covid	22
Gofal cyn geni	30
Geni gartref	37

Genedigaeth naturiol	40
Plentyn cyntaf	42
Prysuero'r geni	48
Genedigaeth Gesaraidd	53
Genedigaeth â chymorth	61
Bwydo ar y fron	63
Gofal ar ôl geni	69
Gofal arbennig a beichiogrwydd cymhleth	75
Agweddau	77
Teimlo'n ddiogel	81
Yr amgylchedd	83

Awgrymiadau gan famau	85
Dysgu o'r hyn a glywsom	87
Argymhellion	88
Diolch	86
Manylion cyswllt	92
Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'n hadroddiad	93

Ynglŷn â'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

Mae'r CICau yn gyrrff annibynnol sy'n adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'r CICau yn annog ac yn cynorthwyo pobl i gael llais wrth ddylunio, cynllunio a chyflenwi gwasanaethau'r GIG.

Yn aml, ystyrir bod y CICau yn gorff gwarchod annibynnol y GIG yng Nghymru. Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais y "claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol ran o Gymru.

Mae pob CIC yn:



Ymweld yn rheolaidd â gwasanaethau iechyd i glywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sy'n darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau a all wneud gwahaniaeth mawr



Estyn allan at bobl mewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth a chasglu barnau a phrofiadau o wasanaethau'r GIG. Mae'r CICau'n defnyddio'r wybodaeth hon i wirio sut mae gwasanaethau'n perfformio ac i sicrhau bod y GIG yn gweithredu i wella pethau, lle bo angen



Ymwneud â rheolwyr gwasanaethau iechyd pan fyddant yn ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau, fel bod pobl a chymunedau'n cael dweud eu dweud o'r dechrau



Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol, i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG

Mae'r CICau'n clywed gan y cyhoedd mewn sawl ffordd wahanol. Cyn y pandemig coronafeirws, roedd y CICau'n ymweld â gwahanol wasanaethau'r GIG yn rheolaidd, megis meddygfeydd ac ysbytai, i glywed gan bobl tra roeddent yn derbyn gofal a thriniaeth. Roedd y CICau'n clywed hefyd gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr y gymuned, megis cynghorwyr a gwleidyddion.

Roedd y CICau mewn cysylltiad yn aml â grwpiau a mudiadau amrywiol yn y gymuned hefyd, megis Cyngor ar Bopeth, ysgolion, mudiadau gwirfoddol ar gyfer gwahanol elusennau ayb. Roedd y CICau'n clywed hefyd gan bobl a oedd yn mynychu ein cyfarfodydd ac yn cysylltu â'n swyddfeydd a'n staff.

Ers y pandemig coronafeirws, mae'r ffyrdd hyn o wrando ar bobl wedi gorfod newid, felly mae'r CICau wedi canolbwyntio ar glywed yn uniongyrchol gan bobl mewn gwahanol ffyrdd. Er nad oedd modd i ni gwrdd â phobl wyneb yn wyneb, oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith, mae llawer o bobl wedi dysgu ffyrdd newydd o wneud pethau'n wahanol, gan ddefnyddio technoleg fel rheol. Mae hyn yn cynnwys arolygon ar-lein, defnyddio gwahanol apiau ar eu ffonau symudol, fideo-gynadledda a'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi defnyddio'r rhain i glywed gan bobl am eu barn a'u profiadau o ofal y GIG.

Gwyddwn nad yw pawb wedi gallu defnyddio technoleg neu'r ffyrdd newydd hyn o gyfathrebu. Mae'n bosib bod rhai pobl yn ei chael hi'n anoddach cael eu clywed yn ystod cyfnod y pandemig anghyffredin iawn hyn. Rydym wedi parhau i ddefnyddio dulliau mwy traddodiadol, megis arolygon papur, er mwyn ceisio goresgyn hyn.

Mae CIC Hywel Dda yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yn y tair sir, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Ardal Hywel Dda

<https://hywelddacic.cymru/>



Cefndir

Mae Cyngor Iechyd Hywel Dda wedi ymgymryd â gwaith ar wasanaethau mamolaeth, fel mater o drefn, ers nifer o flynyddoedd. Gwyddwn fod cael babi yn brofiad sy'n newid bywyd. Nid yn unig y mae unigolion bach newydd yn cael eu hychwanegu at ein poblogaethau, ond hefyd mae pobl yn dod yn famau, tadau, mam-guod, tad-cuod, brodyr, chwirydd, modrybedd, ewythrod a mwy; ac mae bywydau pobl yn newid am byth.



Yn aml, mae cael babi yn brofiad llawen ac, fel rheol, bydd gan bron pob mam, tad neu bartner geni stori i'w hadrodd am yr enedigaeth. Yn ein cymunedau, rydym yn dod i wybod am feichiogrwydd ffrindiau, cymdogion ac aelodau'r teulu. Mae gan y mwyafrif ohonom ddiddordeb naturiol, a byddwn yn holi pryd mae'r dyddiad geni disgwylidig, a ydyn nhw'n gwybod ai bachgen neu ferch maen nhw'n ei gael ac a oes ganddynt unrhyw enwau mewn golwg.

Unwaith mae'r un bach wedi cael ei eni, rydym fel arfer eisiau gwybod sut aeth yr enedigaeth, ai bachgen neu ferch yw'r un bach, beth oedd pwysau'r babi a sut mae'r fam a'r babi. Fel arfer, mae'r straeon newyddion da hyn am enedigaeth babanod yn bethau y mae pobl yn croesawu eu clywed a'u rhannu gyda'n teuluoedd a'n cymunedau.



Fel rheol, dim ond pan nad yw eu profiad geni wedi bod cystal y mae CIC Hywel Dda yn clywed gan bobl. Mae hyn am fod pobl yn cysylltu â'n gwasanaeth eiriolaeth i gael help i wneud cwyn am eu gofal. Mae hyn yn golygu nad ydym yn aml yn clywed am y straeon cadarnhaol a hapus, dim ond profiadau pobl pan nad yw pethau wedi mynd yn hwylus.

Er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun cytbwys o wasanaethau mamolaeth lleol, rydym wedi bod yn monitro gwasanaethau mamolaeth dros y blynyddoedd diwethaf, i ddeall sut brofiadau mae pobl yn eu cael. Gwyddwn y bu pryderon sylweddol am wasanaethau mamolaeth mewn rhannau eraill o Gymru a'r DU ar wahanol adegau. Rydym eisiau sicrhau ein bod ni'n clywed gan famau yn ardal Hywel Dda, i weld sut beth yw ein gwasanaethau mamolaeth. Mae hyn yn golygu ein bod ni eisiau gwybod am y gofal y mae mamau wedi'i gael yn ysbytai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg, yn ogystal ag yn y cymunedau lle mae mamau'n cael eu gofal cyn geni a lle mae rhai mamau'n dewis cael eu babanod.



Yr hyn a wnaethom

Yn draddodiadol, rydym wedi ymweld ag unedau mamau i siarad â mamau am eu gofal. Pan fyddwn yn ymweld, rydym yn canfod, fel arfer, bod menywod yn hapus i sgwrsio â ni am eu profiadau yn yr ysbyty cyn neu ar ôl geni plentyn.

Yn ystod ein hymweliadau, clywsom lawer o sylwadau cadarnhaol am gael babi yn ysbytai Hywel Dda. Yn ei harolwg diweddar, dywedodd pobl wrthym fod genedigaethau'n cael eu rheoli'n dda, eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a'u bod yn ddiogel.

"Cefais brofiad gwych yn ystod fy meichiogrwydd ac wrth eni"

(Geni gartref, Chwefror 2021)

"Roedd yr holl brofiad yn wych"

Glangwili, Mehefin 2020

"Roedd y gofal a gefais trwy gydol fy meichiogrwydd yn neilltuol. Profiad cwbl bositif a bythgofiadwy"

(Geni â chymorth, Ebrill 2021, Glangwili)

Pan fyddwn yn ymweld ag ysbytai i siarad â mamau, gall unedau mamau fod yn brysur ac nid yw bob amser wedi bod yn bosib siarad â phawb. Mae'n bosib y bydd mamau'n brysur yn ceisio bwydo ar y fron neu eisiau gorffwys.

Weithiau, bydd mamau'n aros yn yr ysbyty am ychydig oriau'n unig ac maent yn awyddus i fynd adref, felly nid ydym yn eu gweld. Gall eraill fod yn anhwylyd neu fod wrthi'n geni ac nid yw'n briodol siarad â nhw bryd hynny.

Gwyddwn fod angen amser ar rai mamau i feddwl am eu profiad geni. Mae geni babi yn brofiad emosiynol ac mae rhai mamau'n teimlo bod angen iddynt wella ar ôl y geni neu gymharu straeon geni gydag eraill, yn hytrach na rhoi eu barn ar unwaith tra eu bod yn yr ysbyty.

Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio grwpiau mam a'i phlentyn fel ffordd o gysylltu â mamau y tu allan i'r ysbyty, fel y gallant ddweud wrthym am eu straeon geni plentyn. Roedd yn gyfle da i ni glywed gan famau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd ar ôl iddynt gael eu babanod, nid yn fuan cyn geni neu ar ôl geni'r plentyn. Ond gwyddwn nad yw pob mam yn mynychu'r grwpiau hyn, oherwydd efallai eu bod nhw'n gweithio neu fod ganddynt blant neu ymrwymadau eraill.

Ar yr union amser yr oeddem yn cynllunio ein gwaith mamolaeth ar gyfer 2020, fe newidiodd bywyd fel yr ydym yn ei adnabod yng Nghymru. Roedd y pandemig coronafeirws yn golygu bod gofal iechyd wedi newid yn gyflym iawn. Roedd yn rhaid i bobl aros gartref. Roedd yn rhaid i ofal mamolaeth fod yn wahanol. Yn sydyn, roedd y cyfnod clo yn golygu nad oedd menywod beichiog a mamau newydd yn gallu cwrdd ag eraill, na chael y math o ofal mamolaeth yr oeddent yn ei ddisgwyl.

Ni allem ymweld ag unedau mamau neu grwpiau mam a'i phlentyn, felly yn lle hynny, gwnaethom ddefnyddio arolwg ar-lein ac arolygon papur i ofyn i famau ddweud wrthym sut ofal mamolaeth a genedigaeth a gawsant. Cawsom gannoedd o ymatebion mewn cyfnod byr iawn, a bydd yr adroddiad hwn yn dweud wrthyf yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod.



Roedd yr ymateb i'n harolwg yn wych ac fe wnaethom edrych hefyd ar yr wybodaeth arall a oedd yn cyrraedd y CIC mewn ffyrdd eraill:

- trwy ymholiadau a barhaodd i gyrraedd swyddfeydd y CIC dros y ffôn, ar e-bost a thrwy'r post
- trwy rannu straeon unigol gyda'r gwasanaeth eiriolaeth cwynion
- trwy gysylltiadau â rhwydweithiau cymunedol lleol, a allai ddweud wrthym yr hyn roeddent yn ei glywed yn eu hardaloedd lleol
- gwybodaeth gan gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol
- trafodaethau cyfryngau cymdeithasol ar Facebook a Twitter
- trwy fonitro gweithgareddau ac adroddiadau perfformiad y bwrdd iechyd, i weld yr hyn roedd y GIG yn ei ddweud wrthym
- sylwadau o arolwg CIC Cymru gyfan a oedd yn gofyn i bobl roi gwybod i ni am eu gofal iechyd.

Rhoddodd y ffynonellau hyn fwy o wybodaeth i ni am ofal mamolaeth ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth honno yn yr adroddiad hwn.

Ein harolwg mamolaeth

Ni wnaethom holi llawer o gwestiynau manwl yn ein harolwg, yn hytrach, gwnaethom ofyn i famau:

- Ble y gwnaethant eni'r plentyn
- Pryd y gwnaethant eni'r plentyn
- Ai hwn oedd eu plentyn cyntaf
- A gawsant enedigaeth naturiol, genedigaeth â chymorth, genedigaeth Gesaraidd neu enedigaeth wedi'i phrysuero
- Yr hyn roeddent eisiau ei ddweud wrthym am eu gofal mamolaeth / genedigaeth y plentyn, yr hyn oedd yn dda a'r hyn nad oedd cystal
- Yr hyn oedd angen ei newid, neu unrhyw awgrymiadau y gallent eu gwneud

Gall arolygon ar-lein fod yn hawdd eu defnyddio am fod gan lawer o fenywod fynediad at ffonau symudol, tabledi neu gyfrifiaduron. Yn aml, bydd mamau wedi defnyddio technoleg o'r blaen ac yn ei chael hi'n gyfleus iawn. Roedd copïau papur o'n harolwg ar gael hefyd. Er bod ein harolwg wedi dod i ben erbyn hyn, rydym yn monitro gwasanaethau mamolaeth bob amser ac, os ydych chi am ddweud wrthym sut brofiad a gawsoch wrth eni eich plentyn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Yr hyn a glywsom

Rydym eisiau rhannu rhai o'r straeon y mae pobl wedi bod yn barod i'w rhannu gyda ni am eu profiadau mamolaeth. Mae pobl wedi dweud wrthym sut brofiad oedd geni plentyn yn ein hysbytai yng Nghaerfyrddin, Ceredigion ac Aberystwyth. Clywsom hefyd gan famau a oedd wedi geni eu plant yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoedd annisgwyl weithiau.

Cawsom ein llethu gan lawer o sylwadau cadarnhaol am roi genedigaeth yn ardal Hywel Dda. Mae pobl wedi dweud wrthym mor wych oedd eu profiad geni, ac weithiau hyd yn oed pan oedd yn syndod neu'n wahanol iawn i'w cynllun geni.

Rydym wedi clywed am staff unigol yn cael eu henwi a'u diolch – dyma'r bobl yr oedd mamau'n dibynnu arnynt yn ystod rhai o'u heiliadau mwyaf cofiadwy a newidiodd eu bywydau, y bydwragedd, y meddygon a gweithwyr eraill y GIG na fyddant byth yn cael eu hanghofio. Mae wedi bod yn ffrainc aruthrol clywed y profiadau llawen hyn.

Rydym wedi clywed straeon negyddol hefyd. Amserau pan oedd mamau yn disgwyl genedigaeth i'w rhyfeddu a chyfnod o drawsnewid yn llyfn i fod yn fam, ond nid y profiad hapus yr oeddent yn gobeithio amdano y cawsant. Mae'n bosib bod rhai o'r profiadau negyddol hyn wedi golygu colli plentyn yn ystod beichiogrwydd neu enedigaeth, cael babi â phroblemau iechyd annisgwyl neu brofi cymhlethdodau meddygol cyn, yn ystod neu ar ôl geni. Mae'n ddrwg calon gennym dros rieni sydd wedi profi'r digwyddiadau hyn, a diolchwn iddynt am gymryd yr amser i roi gwybod i ni am eu profiadau anodd.

Deilliodd profiadau negyddol eraill o gyfathrebu gwael, agweddau digymwynas, prosesau anhyblyg a ffactorau eraill. Mae'r rhain i gyd yn bethau y gellir eu newid.

Dyma pam ei bod yn bwysig ein bod yn clywed am y rhain, fel y gall ein hadroddiad ddweud wrth y Bwrdd Iechyd yr hyn sydd angen ei newid i wella pethau.

Nid ydym wedi gallu cynnwys sylwadau pawb, ond rydym wedi darllen pob ymateb a gawsom.

... y sylwadau cadarnhaol

Mawrth 2021 – Glangwili

“Ardderchog o’r dechrau. Gwelais fy meddyg ymgynghorol a fy mydwraig yn rheolaidd gydol fy meichiogrwydd. Roedd y gofal ar ward Dinefwr yn wych yn ystod fy arhosiad pedwar diwrnod i brysuro’r geni ac roedd y gefnogaeth gan bawb yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl hynny yn fwy nag y gallwn fod wedi dymuno’i gael.”

Ebrill 2020 – Llwynhelyg

“Cefais brofiad hollol anhygoel yn Llwynhelyg.”

Gorffennaf 2020 - Glangwili

“Neilltuol, roedd y staff mor ofalgar a gwnaethant amser i sicrhau fy mod i’n iawn. Cefais ofal eithriadol cyn geni ac ar ôl geni.”

Mae wedi bod yn galonogol iawn clywed bod cymaint wedi dweud bod bydwragedd yn gwrando ar famau beichiog am yr hyn yr oeddent ei eisiau ac yn parchu eu dymuniadau:

Medi 2020 – Glangwili –

“Profiad gwych a mor hamddenol (ag y gallai fod). Roeddent yn gynorthwyol iawn a gwnaethant fy nhywys drwy bob cam o eni fy mabi 9 pwys 13 owns heb unrhyw feddyginiaeth lleddfu poen! Gwnaed i fi deimlo’n gartrefol, er bod cyfyngiadau covid ar waith. Ni allaf ddiolch digon i’r bydwragedd am yr hyn a wnaethant i fi a fy machgen bach.”

**Awst 2020 -
Bronglais**

“Aeth popeth yn iawn, ni allaf achwyn am unrhyw beth.”

Ebrill 2021 – Glangwili –

“parchwyd fy newisiadau geni a chefais yr enedigaeth roeddwn ei heisiau, er gwaethaf cymhlethdodau yn ystod fy meichiogrwydd.”

Hydref 2020 – Glangwili - (Cesaraidd)

“Roedd yn wych, o’r eiliad y cyrhaeddais i, roedd y staff i gyd yn barod i helpu, yn ddigynnwrf ac yn glir. Dywedon nhw wrthyf yn union beth i’w ddisgwyl a gwneud i fi deimlo’n gartrefol.”

Ebrill 2020 – Glangwili

“Hollol anhygoel, o’r amser y cyrhaeddais i’r ysbyty i’r eiliad y cefais fy rhyddhau.”

Mawrth 2021 - Glangwili

“Roedd fy mydwraig nos yn anhygoel. Roedd fel cael eich ffrind gorau ar sifft.”

Roedd y gair “anhygoel” yn un a ymddangosodd mewn cymaint o sylwadau yn ein harolwg. Clywsom hefyd fod staff yn “gefnogol” ac yn “gysurol”.

Tachwedd 2020 – Glangwili –

“Roedd y staff yn anhygoel ar y ward eni, ac yn meddwl yn gyflym gan y bu’n rhaid i fi fynd i’r theatr. Roeddent yn gefnogol iawn ac esboniwyd popeth i fi cyn iddo ddigwydd.”

Roedd y sylwadau cadarnhaol eraill a gawsom yn canolbwyntio ar bethau megis:

“... gofal ardderchog gan y bydwragedd a’r tîm meddygol yn ystod yr enedigaeth. Teimlais wedi fy nghefnogi’n llwyr yn ystod yr enedigaeth” Hydref 2020, Glangwili

“...roedd y fydwraig yn wych, roedd hi wir yn poeni a dyna wnaeth i fi deimlo’n gysurus.” Ebrill 2021, Glangwili

Ebrill 2021 - Llwynhelyg

“Gwnaeth staff hyfryd ac anhygoel fy mhrofiad mor braf ag y gallai fod... Ni allwn fod wedi gofyn am well profiad, roedden nhw mor effeithlon a chysurol yn ystod yr enedigaeth. Mae’r cyfleusterau yn Llwynhelyg yn wych a gwnaed i fi deimlo’n gyffyrddus iawn. Roeddwn i’n hyderus trwy gydol yr enedigaeth fy mod i yn y lle gorau.”

... y sylwadau negyddol

Er ei bod yn dda clywed y pethau cadarnhaol, roedd y pethau negyddol yr un mor bwysig. Gwnaethom edrych ar ein hymatebion a chanfod bod rhai themâu'n amlygu'n gyson yn y straeon yr oedd pobl yn eu hadrodd wrthym:

- **Cyfyngiadau covid** a sut roedd hyn yn effeithio ar fynediad i bartneriaid. Gwnaeth hyn i famau deimlo'n ofidus a phryderus, oherwydd eu bod yn wynebu bod heb gefnogaeth ar adeg pan oedd gwir ei angen arnynt. Dywedodd llawer o famau wrthym fod hyn wedi cael effaith fawr iawn ar eu beichiogrwydd a sonnir yn fanylach am hyn nes ymlaen yn ein hadroddiad.

"Nid ydw i'n credu y byddaf yn cael babi arall ac felly fe wnaeth ddifetha'r profiad i fi. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael fy ngwadu."



- **Diffyg parhad gofal.** Roedd mamau'n teimlo, nid yn unig eu bod yn cael llai o ofal weithiau oherwydd y pandemig, ond eu bod yn gorfod gweld llawer o wahanol bobl hefyd. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ailadrodd eu stori beichiogrwydd bob tro y cawsant eu gweld, felly nid oeddent bob amser yn teimlo bod ganddynt berthynas dda â'r gweithiwr iechyd proffesiynol yr oeddent yn ymdrin â nhw.

Mai 2021 - Glangwili

“Ddim yn siŵr beth yw pwrpas cael bydwraig benodol pan rydych chi prin yn cael ei gweld neu siarad â hi. Bu’n rhaid i fi esbonio fy amgylchiadau dro ar ôl tro, oherwydd pan fyddwn i’n ffonio fy mydwraig byddwn i’n cael fy ailgyfeirio at rywun gwahanol bob tro.”

- Roedd **diffyg cymorth i fwydo ar y fron** yn peri gofid i famau pan oeddent yn cael trafferth bwydo ar y fron. Mae llawer yn teimlo y gallai cymorth cynnar yn yr ysbyty fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr.
- Roedd **Cymorth annigonol yn syth ar ôl geni** yn gwneud i famau deimlo’n ddiymadferth, ac yn ei chael hi’n anodd gofalu am eu babi. Roedd absenoldeb partneriaid yn golygu bod mamau’n teimlo nad oedd unrhyw un yn gofalu amdanyh nhw.
- **Sylwadau negyddol neu feirniadaeth** a chael eu gwneud i deimlo fel niwsans, yn enwedig mamau am y tro cyntaf a’r rhai a oedd wedi cael toriad Cesaraidd. Roeddent yn teimlo bod rhai sylwadau gan staff yn anghynorthwyol.
- Roedd **peidio â darparu ar gyfer rhai anghenion sylfaenol** megis prydau bwyd, diet priodol neu ddewis oddi ar y fwydlen, yn peri gofid i famau blinedig a oedd yn ceisio gwella ar ôl geni plentyn a sefydlu bwydo ar y fron.

Geni plentyn ym myd Covid

O'n harolwg, clywsom fod y pandemig wedi gwneud pethau'n anodd iawn i fenywod beichiog a mamau newydd. Ar y cyfan, roedd menywod yn deall ac yn gwerthfawrogi'r gofal a gawsant o dan yr amgylchiadau anodd hyn.

Roeddent yn gwybod mai bwriad y cyfyngiadau oedd cadw pawb yn ddiogel, ond roeddent yn teimlo hefyd bod hyn yn effeithio ar eu beichiogrwydd a'u profiad geni.

Ebrill 2020 – Glangwili

"Gofal anhygoel, roeddwn i'n teimlo'n hynod ddiogel er gwaethaf y ffaith bod covid o gwmpas a bu'n rhaid i fi fod yn yr ysbyty am 5 diwrnod."

Roedd rhai'n teimlo bod y cyfyngiadau covid a oedd ar waith wedi difetha eu holl brofiad o feichiogrwydd. Roeddent yn teimlo y dylai'r cyfnod hwn wedi bod yn gofiadwy a chyffrous. Yn hytrach, i gwpl a oedd yn disgwyl babi, roedd yn teimlo'n llai o brofiad i'w rannu. Roedd llawer yn teimlo y dylid bod wedi gwneud mwy o eithriadau i fenywod beichiog a'u partneriaid. Dywedwyd wrthym:

"Fe wnaeth yr holl sefyllfa gyda covid ... daflu cysgod dros brofiad geni pobl ... cefais hi'n anodd mwynhau fy meichiogrwydd."

Roedd y ddau brif sylw a glywsom ym mron pob profiad yn ymwneud â'r

- cyfyngiadau ar bartneriaid yn cael bod yn rhan o'r gofal cyn geni a'r enedigaeth
- cyfyngiadau ar ymweld

Medi 2020 - Glangwili

"Roedd peidio â chael fy ngŵr gyda fi adeg sganiau neu ar y ward ar ôl rhoi genedigaeth yn drawmatig ac yn galed iawn. Gallai fod wedi mynd i'r dafarn gyda'i ffrindiau, ond ni allai fod gyda'i wraig a'i blentyn heb ei eni! Mae gofal mamolaeth wedi cael ei esgeuluso yn ystod y pandemig ac ni ystyriwyd iechyd meddwl menywod wrth wneud y rheolau."

Medi 2020 - Glangwili

**"...Roedd hi mor anodd cael babi yn y sefyllfa bresennol ac mae'n dal i effeithio arnaf a fy nghynhyrfu nawr."
[mam am y tro cyntaf]**

Dywedodd mamau wrthym ei bod yn anodd bod ar eich pen eich hun yn ystod apwyntiadau a sganiau. Roedd rhai yn ei chael hi'n anodd mynychu apwyntiadau ar eu pennau eu hunain, oherwydd eu bod yn poeni am yr hyn y gallent gael gwybod a faint y gallai fod angen iddynt ei gofio.

Yn arbennig, roedd mamau ag anghenion penodol, megis byddardod neu broblemau lleferydd, yn ei chael hi'n fwy heriol mynychu ar eu pennau eu hunain. Roeddent yn teimlo eu bod wedi'u gorlethu ac yn agored i niwed, oherwydd nad oedd unrhyw un yno i helpu "cyfieithu" iddyn nhw.

Dyweddodd un fam wrthym na chafodd ei phartner fynd i'r sganiau 12 ac 20 wythnos. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bresennol pan gafodd hi wybod eu bod yn cael gefeilliaid - profiad unigryw y mae'n teimlo iddynt ei golli ac na fyddai'n digwydd eto.

Roedd eraill a oedd wedi profi genedigaethau marw, comesgoriadau neu lle y canfuwyd bod gan fabanod anffurfiadau, yn ei chael hi'n frawychus iawn mynd i apwyntiadau ysbyty ar eu pennau eu hunain. Roeddent yn poeni y byddent yn cael newyddion drwg unwaith eto ac y byddai'n rhaid iddynt ddweud wrth eu partner neu eu teuluoedd.

Roedd mamau'n teimlo fod y rheolau ynghylch mynychu sganiau'n rhy gaeth. Dywedwyd wrthynt na allent ffilmio'r sganiau ar eu ffonau symudol i helpu partneriaid deimlo eu bod yn rhan o'r profiad. Clywsom fod absenoldeb mewn sganiau neu apwyntiadau yn teimlo fel cam yn ôl i'r 1950au, pan nad oedd partneriaid yn cael eu cynnwys yn y beichiogrwydd na genedigaeth eu plant fel rheol. Roedd hwn yn newid mawr i'r ffordd y mae genedigaeth wedi bod yn brofiad a rennir i gyplau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ionawr 2021 - Glangwili

"Rwy'n deall fod cyfyngiadau ar waith, ond dyma'r peth mwyaf y mae menywod yn mynd drwyddo. Rydw i mor falch fod pethau'n newid, gan na fyddwn i eisiau i unrhyw fenyw arall gael profiad tebyg i fi. Rydw i wedi dioddef gyda PTSD a PND o ganlyniad."

Roedd hi'n anodd hefyd pan fyddai menywod yn dod i'r ysbyty ar eu pennau eu hunain i eni eu babanod. Nid dyna'r ffordd yr oedd menywod beichiog wedi rhagweld y byddent yn rhoi genedigaeth. Yn hytrach, roeddent wedi disgwyl cael cefnogaeth gan eu partner geni trwy gydol yr enedigaeth gyfan. Roedd y pandemig yn golygu bod rhoi genedigaeth yn brofiad gwahanol iawn.

“Golygodd y cyfyngiadau covid nad oedd fy ngŵr yn gallu mynychu unrhyw sganiau neu apwyntiadau gyda fi, ac roedd hyn yn peri gofid mawr. Collais i blentyn yn 2019 a theimlais fod mynychu sganiau ar fy mhen fy hun yn brofiad unig a phryderus. Cefais fy nerbyn i Glangwili yn gynnar gyda chyneclampsia a threuliais wythnos yn yr ysbyty... er i fi dderbyn gofal ardderchog... ni chafodd fy ngŵr, sef fy mhartner geni, ymweld â fi o gwbl. Bu bron iddo fethu'r enedigaeth hefyd... a bu'n rhaid iddo adael fi a'n merch fach cyn gynted ag y gwnaethom adael yr ystafell eni... yna, fe arhoson ni yn yr ysbyty am 2 ddiwrnod... ac ni allem ei weld nes i ni gael ein rhyddhau... Teimlwn ei bod yn annheg bod mesurau llai caeth ar waith mewn byrddau iechyd eraill, er eu bod yn dilyn yr un canllawiau gan Lywodraeth Cymru.”

Roedd menywod yn teimlo bod eu partneriaid yn aml wedi colli allan yn sylweddol ar amser gwerthfawr gyda'u babi newydd neu brofiad o feichiogrwydd a rennir. Mewn rhai achosion, nid oedd partneriaid wedi gallu mynychu unrhyw apwyntiadau yn ystod y beichiogrwydd cyfan. Achosodd hyn drallod a phryder i deuluoedd.

Mai 2021 - Glangwili

"Cefais fy symud yn ôl i'r ward famau o fewn awr i fi eni ac ni chafodd fy nhartner, a fethodd yr enedigaeth, gyfle i dreulio unrhyw amser gyda'n merch a minnau, gan fod 4 menyw arall yn mynd i eni ac roedd angen y gwelyau arnynt. Teimlais i ni gael ein brysio, yn emosiynol a bod yr holl beth yn drech na mi. Roeddwn i'n teimlo sut drueni am fy nhartner, a gafodd fagu ein merch am yr amser a gymerodd i fi gael 5 pwyth cyn cael ei dywys allan, heb unrhyw amser i glosio fel teulu, a theimlais nad oedd gen i fawr o gefnogaeth emosiynol oherwydd hyn."

Ebrill 2021 - Glangwili

"Gadewch i bartneriaid fod yn rhan o'r cyfan lawn cymaint â mamau. Ein babi NI oedd e', ond roeddwn i'n teimlo mor unig."

Cwblhaodd un tad ein harolwg i ddweud na chafodd fagu ei fab am wythnos gyntaf ei fywyd oherwydd y cyfyngiadau covid.

Clywsom fod y rheolau'n cael eu newid pe bai babanod yn mynd yn sâl ac yn gorfod mynd i'r uned gofal arbennig. Dywedodd un fam wrthym:

Mehefin 2020 – Glangwili

"...Rwy'n meddwl y dylai partneriaid geni allu gweld eu babanod. Ni chafodd fy ngŵr weld ein merch am 3 diwrnod nes iddi fynd i SCBU. Roedd hyn yn erchyll i fy iechyd meddwl ac yn ofnadwy iddo ef fethu â gofalu am ei ferch fach a'i wraig."

Clywsom hefyd fod menywod yn teimlo bod rhywfaint o anghysondeb yn y ffordd yr oedd y rheolau ynghylch partneriaid yn cael eu gorfodi gan wahanol bobl:

Gorffennaf 2020 – Glangwili

"Ar ôl i'r babi gael ei eni, cefais fy rhoi mewn bae lle na allai fy mhartner fod gyda fi oherwydd covid, ond roedd partneriaid y ddwy fenyw a oedd gyda fi yn y bae yn cael bod gyda nhw. Rwy'n siŵr bod esboniad am hyn, ond roeddwn i'n teimlo'n unig iawn, yn anghyfforddus ac nid wyf yn credu y dylwn i fod wedi bod gyda nhw."

Dywedodd un fam wrthym mai dim ond drwy'r drws y gallai ei phartner weld ei fab, a byddai'r bydwragedd yn gwthio'r cot at y drws, fel y gallai weld y babi yn well, ond nid oedd yn cael ei fagu.

Cafodd rhai mamau drafodaethau gyda staff uwch ynghylch mynediad gwell o rhyw fath i bartneriaid, am eu bod yn gwybod y byddent yn aros yn yr ysbyty am gyfnodau hirach. Roedd yn dda gwybod bod staff yn gwneud penderfyniadau ar sail unigol, ond gallai hyn greu rhywfaint o ddryswch i fenywod eraill nad oedd yr un ystyriaethau wedi'u gwneud ar eu cyfer nhw.

Bu rhai menywod yn ddigon anffodus i ddioddef o covid pan oeddent yn feichiog neu gael prawf positif. Roedd hwn yn gyfnod brawychus oherwydd roedd cymaint nad oedd yn hysbys am covid a'i effaith ar fenywod beichiog. Roedd staff y GIG yn dysgu hefyd sut i ofalu am bobl â covid am y tro cyntaf.

Mai 2021 YCG

“Cefais brofiad erchyll pan gefais fy nerbyn i'r ysbyty oherwydd bod gen i Covid, ym mis Ebrill 2020. Roeddwn i'n 30 wythnos yn feichiog ac wedi cael fy symud o amgylch wardiau amrywiol. Pan cefais fy rhoi yn un ward benodol, dywedwyd wrthyf fod yn rhaid i fi bi-pi mewn padell wely blastig wedi'i gosod ar gadair, oherwydd na allent ddod o hyd i gomôd i fi. Yna, pan oeddwn i eisiau gadael yr ystafell, roedd yn rhaid i fi guro'r drws oherwydd ei fod wedi'i gloi ar y tu allan, gan nad ystafell iawn oedd hi. Ystafell driniaeth y ward oedd hi.”

“Nid yw partneriaid yn cael bod yn bresennol pan eu bod yn prysuro’r geni, ac roedd hyn yn anodd gan eich bod mewn llawer o boen ac mewn ystafell gyda menywod nad ydynt yn yr un sefyllfa. Rydych chi’n gorfod cadw masg ymlaen wrth eistedd yn y gwely / mynd i’r toiled pan eich bod mewn llawer o boen ar ôl geni plentyn ac yna’n cael pryd o dafod gan aelod o staff am ei dynnu bant yn y gwely. Roedd yr holl brofiad yn teimlo’n unig ac roedd yn anodd peidio â chael eich partner yno i’ch cefnogi.”

Er ein bod yn clywed yn gyson bod mamau eisiau i’w partneriaid fod gyda nhw, yn aml, roeddent yn teimlo bod y bydwragedd yn mynd “y tu hwnt i’r galw” i wneud iddynt deimlo’n iawn ac yn ddiogel ar eu pennau eu hunain. Gwerthfawrogwyd y lefel hon o ofal yn fawr, gan fod hyn yn dangos bod bydwragedd yn deall y pryderon oedd gan famau.

Yr hyn a oedd yn amlwg yn ein harolwg oedd bod mamau’n gallu gwahaniaethu rhwng cael genedigaeth dda a chael y gofal iawn. Gwyddwn y bydd llawer o’r profiadau cadarnhaol wedi bod gan famau a gafodd enedigaethau da a gofal da. Efallai y bydd mamau eraill wedi cael genedigaethau anodd, ond eu bod wedi cael gofal da cyn ac ar ôl geni, ac efallai eu bod yn dal i’w ystyried yn brofiad cadarnhaol. Efallai y bydd eraill a gafodd enedigaethau da yn teimlo y cawsant ofal gwael a bod hyn wedi effeithio ar eu profiad cyffredinol.

Er na allwn roi o’r neilltu'r effaith y mae'r pandemig wedi'i gael ar fenywod, clywsom hefyd rai themâu o elfennau eraill o’u straeon, a bydd gweddill ein hadroddiad yn canolbwyntio ar y rhain.

Gofal cyn geni

Pan fydd menywod yn darganfod eu bod yn feichiog, maent yn cael gofal cyn geni gan fydwragedd a meddygon ymgynghorol weithiau, i'w helpu i gael beichiogrwydd a babanod iach.

Mae gofal cyn geni'n ymwneud â'r amser cyn i'r babi gael ei eni, pan fydd beichiogrwydd yn cael ei gadarnhau, mae sganiau a phrofion gwaed yn cael eu gwneud. Mae menywod yn cael cwrdd â'u bydwraig a'u meddyg ymgynghorol, lle bo angen. Trafodir eu cynlluniau geni yn yr apwyntiadau hyn.

Gall hwn fod yn amser cyffrous iawn i'r mwyafrif o fenywod, ond gall fod yn gyfnod pryderus hefyd. Mae pobl yn awyddus i sicrhau bod canfyddiadau'r sgan yn normal a bod eu babi'n tyfu'n iawn. I'r mwyafrif helaeth, bydd gofal cyn geni yn rhoi newyddion da a sicrwydd iddynt. Ond i rai, gall hwn fod yn amser y byddant yn clywed newyddion annisgwyl, a allai effeithio ar weddill eu beichiogrwydd a'u cynlluniau geni.

I famau am y tro cyntaf, mae gofal cyn geni yn brofiad cwbl newydd. Er y dylai fod yn amser llawen yn canolbwyntio ar eu babi newydd, weithiau nid yw rhai mamau'n siŵr beth sy'n digwydd iddynt, yn enwedig lle mae'n rhaid iddynt weld nifer o wahanol weithwyr iechyd proffesiynol.

Tachwedd 2020 - Glangwili

Bu'n rhaid i fi fynychu clinig meddyg ymgynghorol yn Glangwili a theimlais fod yr apwyntiad wedi'i gynnal ar ruthr, heb roi rhyw lawer o wybodaeth, dim ond i mewn ac allan.

Clywsom famau'n dweud wrthym, lle'r oedd pryderon, megis problemau'n ymwneud â thyfiant eu babi, eu bod yn cael eu harchwilio'n wythnosol a'u bod yn teimlo bod y gofal "mor drylwyr". Ac eto, nid oedd pawb yn rhannu'r farn hon.

Roedd mamau a oedd wedi bod yn feichiog o'r blaen, o dan amgylchiadau arferol cyn covid, yn teimlo eu bod yn cael llai o ofal nag yr oeddent wedi'i gael o'r blaen. Roeddent yn teimlo nad oedd hyn yn llawer o broblem iddyn nhw, ond roeddent yn cydnabod efallai y gallai hyn fod yn heriol iawn i famau am y tro cyntaf yn arbennig.

Roedd rhai mamau'n rhwystredig gyda'r ffordd yr oedd apwyntiadau cyn geni'n cael eu cynnal ac yn teimlo bod apwyntiadau'n cymryd gormod o amser, neu nad oeddent yn cael unrhyw barhad o ran gofal. I famau am y tro cyntaf, roedd hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn cael cyfle i holi'r holl gwestiynau a oedd ganddynt.

Medi 2020 - Glangwili

"Roedd apwyntiadau bydwagedd wastad yn rhedeg 30+ munud yn hwyr. Nid ydw i'n beio'r fydwraig. Roeddwn i'n teimlo'n wael am ofyn cymaint o gwestiynau, fel mam am y tro cyntaf, oherwydd roeddwn i'n gwybod bod pobl yn aros."

Hydref 2020 - Glangwili

"....roedd diffyg parhad o ran bydwraig gymunedol yn golygu fy mod i'n teimlo fod yn rhaid i fi ailadrodd fy hanes ym mhob ymweliad."

Nid oedd rhai mamau beichiog a gwblhaodd ein harolwg wedi cael eu babanod eto, ac felly nid oeddent mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar enedigaeth eu babi, ond roeddent eisoes yn teimlo bod eu gofal cyn geni 'ddim yn bodoli'. Roedd sawl mam yn teimlo ei bod yn anghynorthwyol gorfod ailadrodd hanes eu beichiogrwydd bob tro y byddent yn gweld rhywun newydd.

"Ni wnes i fwynhau fy mhrofiad o ofal mamolaeth... yn rhannol oherwydd cyfyngiadau covid na ellir eu hosgoi. Nid oedd fy mhartner yn gallu mynychu unrhyw apwyntiadau, hwn oedd ein plentyn cyntaf a'n hunig blentyn, felly roeddwn yn siomedig... byddai wedi bod yn well gweld yr un fydwraig neu'r un 2 neu 3. Fel hynny, gallent roi gofal mwy personol. Byddai hynny wedi fy osgoi rhag ceisio egluro sefyllfa iechyd meddwl gymhleth droeon."

Chwefror 2021 - Glangwili

"Roedd yn anodd iawn peidio â chael fy ngŵr gyda fi i fy nghefnogi yn ystod rhai apwyntiadau anodd... Roedd yn arbennig o anodd gorfod mynychu... sgan ar fy mhen fy hun oherwydd yr amheuwyd fy mod wedi colli plentyn.. Canfuwyd problemau yn fy sgan 12 wythnos a chefais fy atgyfeirio i Gaerdydd... dylai eithriadau fod wedi cael eu gwneud i bartneriaid allu mynychu apwyntiadau pan fydd cymhlethdodau. Roedd yn anodd iawn mynychu'r math hyn o apwyntiad ar eich pen eich hun tra eich bod yn ofidus a bregus iawn."

Derbyniodd rhai menywod newyddion drwg yn eu hapwyntiadau gofal cyn geni ac roeddent yn ei chael yn anoddach o lawer delio â hyn gan fod yn rhaid iddynt fynychu apwyntiadau ar eu pennau eu hunain, oherwydd cyfyngiadau covid.

“Sicrhaodd Sonograffydd proffesiynol a charedig yn yr Uned Beichiogrwydd Cynnar fy mod i’n deall beth oedd yn digwydd a beth i’w wneud nesaf, pan gefais sgan i gadarnhau fy mod wedi colli plentyn. Ffoniais yr adran gofal cyn geni droeon, a dywedwyd wrthyf fod yn rhaid i’r boen fod yn ddifrifol i gael fy ngweld yn yr uned beichiogrwydd cynnar. Roeddwn i’n gwaedu’n drwm ac, ar ôl sawl diwrnod, aeth y poen yn eithafol. Yn y diwedd, ffoniais fy mydwraig fy hun, a drefnodd sgan i fi drannoeth. Bu’n rhaid i fi fynd i’r sgan ar fy mhen fy hun i gael gwybod fy mod wedi colli’r babi, ond nad oeddwn wedi’i basio eto. Roedd yn erchyll gorfod mynd i ddweud wrth fy nghŵr.”

Dywedodd menywod wrthym hefyd fod diffyg dosbarthiadau cyn geni wedi bod yn ofid. Nid oedd gan rai menywod unrhyw brofiad o feichiogrwydd, rhoi genedigaeth neu fabanod. Teimlent fod angen yr wybodaeth hon arnynt i allu ymdopi’n dda, yn enwedig os oedd yn rhaid iddynt ymdopi â’u hapwyntiadau neu’u beichiogrwydd cyfan ar eu pennau eu hunain.

Yna aml, gwaethygyd y teimladau hyn oherwydd bod pobl yn teimlo bod amser yn brin mewn apwyntiadau i holi cwestiynau.

Weithiau, roedd hyn yn golygu eu bod yn teimlo na wrandawyd arnynt yn eu hapwyntiadau.

**Ionawr 2021
Glangwili - "O ran y
geni, roeddwn i wir
yn teimlo fod yr
angen/awydd i
gadw menywod
allan o'r ysbyty tan
y funud olaf o bosib
yn golygu na
wrandawyd arnaf
mewn gwirionedd."**

**"Yr unig anfantais
yn glŷn â'r apwyntiadau
yw eu bod nhw drosodd
yn llawer rhy gyflym.
Rwy'n gwybod nad dyna
oedd bwriad y
bydwagedd, ond
roeddwn i'n teimlo bob
amser fy mod i'n cael fy
mrysio ac nad oedd
ganddynt lawer o amser
ar gyfer yr apwyntiad."**

Medi 2020 - Glangwili

**"Roeddwn i'n teimlo'n eithaf ynysig heb ddsbarthiadau
cyn geni. Darparwyd rhai ar-lein, ond nid oeddwn i'n
teimlo'n hyderus iawn yn glŷn â beth fyddai'n digwydd yn
ystod yr enedigaeth, nes i fi siarad â fy mydwraig wythnos
cyn fy nyddiad geni disgwylidig."**

**"Bwcies i gwrs cyn geni ar-lein (yn cynnwys 6 sesiwn) ar
wahân. Bu'n help anferth i fi a fy ngŵr, ac mae'n drueni
bod yna rai menywod nad oes ganddynt yr arian i dalu am
ddosbarthiadau cyn geni ychwanegol."**

“Bu’n rhaid i fi ymweld â’r adran brysbennu sawl gwaith, am i fi waedu yn ystod fy meichiogrwydd (a wnaeth beri gofid mawr i fi a fy ngŵr, nad oedd yn cael mynychu’r ysbyty gyda fi) ac, ar sawl achlysur, roedd yr amserau aros i gael gweld meddyg yn chwerthinllyd. Roedd y bydwragedd yn wych a byddent yn cyflawni eu dyletswyddau’n gyflym ond, o ran gweld meddyg, gallwn fod yn aros ar y ward am oriau. Ar un achlysur, bues i’n eistedd mewn gwely o 10yb nes 6yh yn aros i feddyg ddod ar gael i fy archwilio. Cymerodd llawer o ymweliadau eraill 5+ awr oherwydd bod y meddygon mor brysur.”

Roedd mamau’n cydnabod bod gwybodaeth wedi’i darparu ar dudalen Facebook y Bwrdd Iechyd, a oedd yn arbennig ar gyfer menywod beichiog a mamau newydd. Clywsom fod hon yn “dudalen wych!”. Ond, nodwyd hefyd bod yna lawer o fenywod nad ydynt yn defnyddio Facebook, a theimlwyd y gallai ffyrdd amgen o ddsbarthu gwybodaeth fod yn ddefnyddiol.

Mawrth 2021 – Llwynhelyg

“Yn anffodus, roedd gofal mamolaeth yn Llwynhelyg yn wael. Amserau aros chwerthinllyd ac apwyntiadau’n cael eu hoedi gan 3+awr, ond roedd yr ystafell aros yn wag. Nid oedd byth modd gweld yr un meddyg ymgynghorol ddwywaith ac achosodd hyn broblemau, am fod barn wahanol gan feddygon ymgynghorol gwahanol. Dim cysondeb.”

Nid oedd rhai mamau’n siŵr beth oedd yn effeithio ar eu gofal mamolaeth a’i wneud yn wahanol. Dywedodd un fam wrthym ei bod yn teimlo ei bod prin yn gweld y bydwragedd cymunedol yn ystod ei beichiogrwydd. Nid oedd hi’n gwybod a oedd hyn oherwydd Covid, neu ai oherwydd mai hwn oedd ei hail feichiogrwydd, neu ei bod yn cael toriad Cesaraidd wedi’i drefnu ymlaen llaw. Roedd hi’n teimlo ei bod yn gorfod mynd ar ôl apwyntiadau iddi hi ei hun ac nid oedd hynny’n galonogol iawn.

Geni gartref

Clywsom hefyd gan fenywod a oedd wedi geni gartref. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn i ni, oherwydd nid ydym yn aml yn clywed am enedigaethau cartref o gwbl. Er ein bod yn ymweld ag unedau a wardiau mamau dan amgylchiadau arferol, nid ydym yn mynd i mewn i gartrefi pobl pan fyddant wedi cael eu babi yno.

Rhagfyr 2020 – Geni gartref

“Gofal mamolaeth a phrofiad geni ffantastig. Roeddwn i’n teimlo fy mod i’n cael fy nghefnogi trwy bob agwedd ar feichiogrwydd, yr enedigaeth a’r cyfnod ar ôl geni, cefais barhad gofal ac roedd y profiad cyfan yn gadarnhaol iawn.”

Mai 2021 – Geni gartref

“Roedd geni gartref yn brofiad rhyfeddol.”

Weithiau, roedd geni gartref yn ddewis bwriadol, dyma lle’r oedd mamau eisiau rhoi genedigaeth. Clywsom hefyd nad oedd rhai mamau eisiau mynd i’r ysbyty oherwydd covid, neu oherwydd na allent gael genedigaeth o’i dewis yn yr ysbyty.

Awst 2020 – Geni gartref

“Gwnaethom wir fwynhau cael geni gartref, ond nid dyna oedd ein dewis cyntaf (roeddwn i’n bwriadu cael genedigaeth ddŵr yn y MLU fel y gwnes i gyda fy mhlentyn cyntaf), ond byddai’n braf gallu darparu mwy o wybodaeth am eni gartref...”

Er efallai nad oedd genedigaethau cartref wedi cynnwys gofal ysbyty, roedd menywod yn dal i fod mewn cysylltiad â bydwragedd yn eu cartrefi eu hunain. Roeddent yn dal i ystyried bod covid yn rhywbeth a effeithiodd ar eu genedigaethau cartref:

Awst 2020

“Da iawn, roeddwn i’n teimlo fy mod mewn dwylo diogel... Byddwn i wedi hoffi gweld wynebau’r bydwragedd, ac roedd yn teimlo’n llai personol, ond rwy’n deall nad oedd hynny’n bosib.”

Gorffennaf 2020

“Aeth popeth yn iawn a chefais ofal gwych, o’r sganiau twf a’r cyfarfodydd â’r meddyg ymgynghorol i’r enedigaeth a’r ôl-ofal... Nid oedd fy mhartner yn cael mynychu’r cyfarfodydd â’r meddyg ymgynghorol na’r sganiau... ac roedd hynny’n rhan o’r rheswm y penderfynais i eni gartref, fel y gallai fod yn bresennol trwy’r cyfan...nid dim ond er lles fy iechyd meddwl i’n unig ond fy mhartner hefyd...”

Cafodd rhai mamau brofiad geni annisgwyl nad oeddent bob amser wedi cynllunio ar ei gyfer:

Rhagfyr 2020

“Nid oeddwn yn hapus gyda iaith berswadiol y bydwraedd, pe na bawn eisoes yn ymwybodol o fy hawl i wrthod gofal meddygol, byddwn wedi cael fy mherswadio i gael ymyrraeth feddygol nad oeddwn ei eisiau. Ni wrandawodd y fydwraig a fynychodd fy ngenedigaeth arnaf pan ddywedais wrthi fod pethau’n dwysáu’n gyflym pan fy mod ar eni, a gadawodd hi pan oeddwn yn y cyfnod pontio. Hwn oedd fy 4^{ydd} plentyn ac rwy’n adnabod fy nghorff yn dda. O ganlyniad, ganwyd y babi cyn i’r fydwraig gyrraedd ac felly bu’n rhaid galw ambiwlans, a oedd yn ein barn ni yn wastraff o adnoddau’r GIG. Roedd y babi’n iach, diolch i’r drefn, ac roedd yr ôl-ofal yn wych.”

Ebrill 2020

“Ardderchog, nid oeddwn i erioed wedi disgwyl geni gartref, ond roedd yn brofiad llawer mwy dymunol na chael fy mhlentyn cyntaf yn yr ysbyty.”

Genedigaeth naturiol

O ran y mamau a gafodd enedigaeth naturiol, clywsom straeon cadarnhaol ar y cyfan. Mae genedigaeth naturiol yn golygu'r rhai nad oedd yn rhaid i famau gael ymyriadau ychwanegol a rhoi genedigaeth trwy'r wain.

Rhagfyr 2020 - Glangwili

"Cefais ofal hollol wych o'r dechrau i'r diwedd."

Tachwedd 2020 - Glangwili

"Roedd gofal y bydwragedd cymunedol yn rhagorol a chefais brofiad geni da iawn."

Clywsom sut roedd mamau â chynlluniau geni yn ystyried bod bydwragedd wedi cefnogi'r rhain. Mewn un enghraifft, roedd mam wedi bod eisiau geni ar ei phen ei hun gyda'i phartner i raddau helaeth a chaniatawyd iddi wneud hyn, gyda bydwragedd ond yn cynorthwyo pan ddechreuodd hi wthio.

Rhagfyr 2020 – Llwynhelyg

"Roeddwn i'n ddigon ffodus i gael genedigaeth ddŵr syml yn yr Uned Dan Arweiniad Bydwragedd yn Llwynhelyg. Cefais ofal gan y ddwy fydwraig hyfrytaf. Roedd terfyn amser i fod yno oherwydd covid, y cawsom ein gwneud yn ymwybodol ohono, ond ni wnaed i ni deimlo ein bod yn cael ein gwthio allan o gwbl.

Roedd yr ôl-ofal yn anhygoel hefyd!!"

Clywsom weithiau famau'n dweud wrthym eu bod yn teimlo nad oedd staff wedi gwrandao arnynt, eu bod wedi cael eu gadael mewn poen am gyfnod rhy hir neu ddim ond wedi cael cynnig paracetamol heb unrhyw esboniad. Roedd eraill yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar eu pennau eu hunain am gyfnod rhy hir, ac nad oeddent wedi gallu defnyddio'r seiniwr i alw unrhyw un am gymorth.

Clywsom lawer o bethau positif a phrofiadau cymysg:

Hydref 2020 - Glangwili

"Roedd y fydwraig yn ffantastig. Fodd bynnag, roeddwn i'n teimlo nad oedd yr anesthetydd yn gwrandao ar fy mhryderon ac roedd yn bychanu fi a'r fydwraig, gan fynnu bod yr epidwral wedi gweithio."

Ionawr 2021 - Llwynhelyg

"Cefais ofal ardderchog trwy gydol fy meichiogrwydd ac, er gwaethaf y pandemig, nid oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth ac ni theimlais fy mod yn cael llai o ofal na phan gefais fy mabi cyntaf yn 2018. Byddai'r staff yn gwneud amser i chi o hyd ac ni theimlais i fi gael fy mrysio mewn apwyntiadau. Roedd y bydwagedd yn wych yn yr archwiliad ar ôl geni hefyd. Byddwn i'n bendant yn argymell ffrindiau i eni yn Llwynhelyg, os cânt y cyfle."

Plentyn cyntaf

Gall y profiad o gael babi am y tro cyntaf fod yn llethol. Mae beichiogrwydd yn beth newydd ac mae yna lawer o bethau i famau ddysgu. Mae'r enedigaeth yn rhywbeth y bydd mamau'n edrych ymlaen ato'n naturiol, ac efallai'n poeni amdano ar yr un pryd. Yn olaf ac yn bwysicaf oll, mae yna fod dynol bach newydd i fod yn gyfrifol amdano a gofalu amdano.

Unwaith eto, roedd mwyafrif llethol y sylwadau a glywsom yn sôn am y staff anhygoel, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle'r oedd mamau'n delio â chymhlethdodau beichiogrwydd annisgwyl.

Glangwili

"Roedd fy mhrofiad mamolaeth y nesaf peth i ddim. Roedd gen i gyneclampsia, felly cefais doriad Cesaraidd yn 34 wythnos ac roedd y staff yn anhygoel."

Bronglais

"Roedd y gofal i gyd yn anhygoel a bu'r ôl-ofal gan y bydwagedd cymunedol yn help mawr i fi pan oeddwn i'n cael anhawster gyda bwydo ar y fron a hwyliau isel. Gwnaed i fi deimlo nad oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth."

Dyweddodd rhai mamau am y tro cyntaf wrthym nad oeddent yn teimlo iddynt gael cystal cefnogaeth yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Teimlent nad oedd staff yn ofalgar ac y gallent fod wedi gwneud mwy. Soniodd menywod yn benodol eu bod yn gweld eisiau cefnogaeth eu partneriaid ar yr adeg hon:

Mehefin 2020 - Glangwili

“Roedd y bydwraedd yn anhygoel tra roeddwn yn geni, ond cefais fy siomi gan yr ôl-ofal. Bu’n rhaid i fi aros yn yr ysbyty am ddau ddiwrnod, heb unrhyw help ac, yn aml, pan fyddwn yn pwyso’r seiniwr i gael help gyda’r babi, byddai myfyriwr yn dod gan edrych arnaf yn dwp pan fyddwn yn gofyn iddyn nhw fy helpu. Hefyd, gwnaeth un o’r uwch fydwraedd i fi lefain a theimlo fel mam ofnadwy pan ddywedais fy mod eisiau mynd adref. Hefyd, ni newidiwyd fy mhad a’m gŵn gwreiddiol am ddiwrnod cyfan ar ôl i fi roi genedigaeth.”

Tachwedd 2020 - Glangwili

“Mam am y tro cyntaf, heb unrhyw gefnogaeth, mewn cymaint o boen wrth brysuro’r geni ac nid oedd y staff yn poeni dim. Roedd fy ystafell drws nesaf i’w hystafell staff ac roedd staff ar y sifft nos mor swnllyd fel nad oedd gobaith cysgu.”

Awst 2020 - Glangwili

“Roedd y gofal ar ôl geni yn ofnadwy, dywedwyd wrthyf fy mod i’n gwneud pethau’n anghywir, pan oeddwn yn fam am y tro cyntaf yn gorfod dysgu popeth ar fy mhen fy hun, heb unrhyw help gan fy nheulu a fy mhartner.”

Clywsom fod agwedd staff at famau am y tro cyntaf weithiau’n ddigymwynas. Dywedodd mamau eu bod weithiau’n teimlo eu bod yn cael pryd o dafod am bethau nad oeddent yn eu gwybod.

Disgrifiodd rhai sut roedd eu beichiogrwydd wedi cael ei gymhlethu gan gyflyrau newydd, megis clefyd y siwgr, yr oeddent yn ceisio ymdopi â nhw hefyd. Roedd hyn yn ei wneud yn amser mwy pryderus i famau am y tro cyntaf, ac roeddent yn teimlo nad oedd staff yn deall bob amser.

Roedd mamau hefyd yn cael eu dychryn weithiau gan y termau a oedd yn cael eu defnyddio i’w disgrifio, er enghraifft pan fyddent yn cael eu disgrifio fel risg uchel, roedd hyn yn eu gwneud yn fwy pryderus yn ystod y beichiogrwydd a’r enedigaeth.

Disgrifiodd rhai mamau sefyllfaoedd lle'r oedd yn ymddangos bod anghytuno rhwng staff, er enghraifft rhwng bydwagedd dan hyfforddiant a staff uwch. Roeddent yn teimlo bod hyn yn anghynorthwyol pan oeddent yn rhoi genedigaeth ac nid oedd yn gwneud iddynt deimlo’n ddiogel.

Roedd mamau am y tro cyntaf yn gofidio hefyd pan fyddai nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gyd yn ymddangos yn sydyn ar gyfer yr enedigaeth.

Roedd yn gwneud iddynt deimlo fel pe bai rhywbeth o'i le. Roeddent yn teimlo y dylid bod wedi egluro hyn, fel na fyddai wedi achosi cymaint o bryder.

Roedd mamau am y tro cyntaf eraill yn teimlo bod eu profiad geni yn drawmatig.

Dywedon nhw wrthym y gadawyd nhw i waedu heb unrhyw esboniad, i ddelio â chathetrau, dripiâu a babi newydd, ac nad oeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd nesaf.

Dywedodd mamau eu bod yn teimlo'n fregus ar ôl cael eu babi oherwydd fod popeth yn newydd iddynt. Nid oeddent yn teimlo eu bod wedi derbyn lefel y gofal a ddisgwylir. Ar y cyfan, clywsom fod y "staff yn hyfryd", ond roedd mamau'n teimlo bod y wardiau'n brin o staff. Ar adegau, clywsom fod staff efallai'n llai amyneddgar gyda mamau am y tro cyntaf, efallai oherwydd eu bod mor brysur ac roedd hyn yn gadael mamau i deimlo'n ofidus neu'n ffôl.

Roedd mamau'n teimlo nad oeddent yn gwybod yn iawn beth yr oeddent i fod i'w wneud os oeddent am gael cawod neu fynd i'r toiled, a ddylent fynd â'u babi gyda nhw. Er mai materion syml yw'r rhain, ni esboniodd unrhyw un sut mae'r wardiau mamau'n gweithio mewn gwirionedd. Roedd mamau'n poeni am gael pryd o dafod am wneud y peth anghywir.

Dywedodd mamau am y tro cyntaf wrthym hefyd eu bod yn poeni pan oeddent yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain, heb bartneriaid neu aelod o staff.

**"Roeddwn i'n fam newydd, yn gwbl
anymwybodol o sut i ofalu am fabi bach
newydd-anedig – byddwn i wedi dwlu pe
bai rhywun wedi eistedd gyda fi/fy
nghysuro/dangos i fi ayb. Nid oedd fy
mhartner yn gallu bod gyda fi oherwydd
rheoliadau covid."**

Roedd mamau am y tro cyntaf, a oedd wedi profi genedigaethau mwy cymhleth neu annisgwyl, yn teimlo yr hoffent fod wedi cael esboniad pam fod angen genedigaeth â chymorth neu doriad Cesaeraidd. Roedd rhai'n cydnabod y gallent fod wedi cael esboniad ar y pryd ond, oherwydd eu bod wedi cael cymaint o gyffuriau lleddfu poen, nid oeddent yn cofio'r hyn a ddywedwyd wrthynt mewn gwirionedd.

Gan ei bod yn ymddangos bod y staff mamolaeth yn brysur iawn, roedd rhai mamau'n teimlo nad oedd yn briodol iddynt holi cwestiynau. Roedd eraill yn teimlo eu bod yn poeni am holi cwestiynau, oherwydd efallai y dylent fod wedi gwybod.

Dywedodd rhai mamau nad oeddent yn glir ynghylch trefniadau rhyddhau ac, unwaith eto, roeddent yn teimlo y gallai staff wedi bod yn fwy cynorthwyol. Dywedodd un fam wrthym ei bod yn paratoi i adael oherwydd bod un person wedi dweud wrthi y gallai, ond yna cafodd bryd o dafod gan nyrs arall, am nad oedd pediatrydd wedi gweld y babi eto.

Mawrth 2021 – Glangwili

“Roedd yn frawychus bod ar fy mhen fy hun mewn cymaint o boen a pheidio â chael cefnogaeth unrhyw un i anadlu trwy'r cyfangiadau. Pan ddychwelodd y fydwraig ymhen amser, er efallai nad oedd yn amser hir iddi hi ond roedd yn amser hir i fi, fe wnaeth hi fy archwilio ac roeddwn i'n 9cm. Aethpwyd â fi ar frys i'r ystafell eni, a gadawyd fy ngŵr i mewn.”

Roedd mamau am y tro cyntaf eraill yn teimlo nad oedd staff yn gwrando neu'n clywed eu lleisiau bob amser. Gwnaeth hyn eu genedigaeth a'u gofal ar ôl geni yn anodd iawn a'u gadael ag atgofion negyddol. Dywedodd rhai mamau ei fod wedi rhoi terfyn ar y syniad o gael mwy o blant.

Hydref 2020, - Glangwili

"Byddwn i wrth fy modd yn ehangu ein teulu, ond mae fy mhryder o fynd drwy'r un profiad trawmatig eto yn ein rhwystro."

Rydym wedi clywed sut mae mamau am y tro cyntaf yn teimlo nad ydynt wedi cael fawr o ôl-ofal a chymorth ar ôl gadael yr ysbyty. Roeddent wedi disgwyl cael cymorth parhaus gan ymwelwyr iechyd ar ôl mynd adref. Roedd angen hyn yn arbennig am na allai aelodau'r teulu a ffrindiau ymweld bob amser, oherwydd cyfyngiadau covid.

Ebrill 2020 - YCG - [toriad Cesaraidd]

"...Ymwelydd iechyd, go brin ein bod wedi'i gweld hi."

Prysuero'r geni

Mae angen `prysuro'r geni' i rai mamau gael eu babi. Dyma lle rhoddir rhywfaint o gymorth i gychwyn yr enedigaeth. Mae tua 1 o bob 5 genedigaeth yn cael eu prysuro yn y DU.

Mae nifer o resymau pam y gallai fod angen prysuro'r geni, er enghraifft, os yw iechyd y fam yn wael neu os yw'r babi'n hwyr. Mae yna ychydig o ffyrdd o wneud hyn, er enghraifft, gellir sgubo'r pilenni ac yna rhoi gel neu besari yn y wain, ond y nod yw dechrau'r cyfangiadau.

Trefnir i brysuero'r geni ymlaen llaw felly, gan amlaf, mae mamau'n gwybod yn fras pryd y byddant yn mynd i'r ysbyty i gael eu babanod. Fodd bynnag, bydd corff pob menyw yn ymateb yn ei ffordd ei hun i brysuero'r geni, ac felly ni ellir gwarantu y bydd yn arwain at eni'r babi ymhen ychydig oriau, a gall gymryd cryn amser.

Yn ein harolwg, clywsom gan rai mamau bod yr awyrgylch yn dawel, eu bod wedi cael digonedd o wybodaeth ac yr atebwyd eu cwestiynau am brysuero'r geni. Mae'r profiad hwn yn dda, gan ein bod yn gwybod y bydd pobl yn poeni llai pan fyddant yn teimlo'n wybodus ac wedi'u diweddarau.

Nododd rhai menywod fod cael yr un staff gyda nhw wrth brysuero'r geni ac wedi hynny yn gynorthwyol iawn. Clywsom hefyd am adegau pan oedd menywod yn teimlo bod eu bydwragedd yn mynd allan o'u ffordd i roi cefnogaeth a gofal.

“Bues i yn yr ysbyty am 4 diwrnod, a bues i’n ddigon ffodus i gael yr un fydwraig trwy gydol y cyfnod prysuro’r geni cyfan. Gwnaeth y parhad gofal hwn wahaniaeth enfawr. Roeddwn i’n teimlo fy mod i’n cael fy nghefnogi drwyddi draw ac, o ystyried yr amgylchiadau anodd, roeddwn i’n gwbl fodlon gyda’r gofal a gefais... Wrth ystyried yr amgylchiadau anodd, roeddwn i’n teimlo bod y staff yn dal i fod yn hynod gefnogol a phroffesiynol. O pan gefais fy nerbyn hyd nes i fi gael fy rhyddhau, nid oeddwn yn teimlo’n unig, roeddwn i’n cael gwybod y diweddaraf am fy ngofal a’m gweithredoedd bob amser, ac roedd y bydwragedd a’r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn dangos gwir empathi.”

Roedd y parhad gofal hwn yn helpu mewn amgylchiadau pan na allai partneriaid fod yno. Fodd bynnag, roedd menywod a oedd yn mynd i mewn i brysuero’r geni yn teimlo y dylent fod wedi gallu cael eu partner geni gyda nhw yn llawer hirach nag oedd y cyfyngiadau’n caniatáu. Gwnaethant ddarganfod bod rhai pethau syml yn anoddach i’w gwneud ac efallai bod y rhain yn bethau nad oeddent bob amser eisiau gofyn i fydwraig helpu gyda nhw:

Mehefin 2020 - Glangwili

“Roedd yn anodd mynd trwy gyfnod ar eni araf heb fy ngŵr i fy nghefnogi a fy helpu, yn enwedig mynd i mewn ac allan o’r gwely, y bath ac ati.”

Nid oedd bod ar eu pennau eu hunain yn ystod camau cynnar yr enedigaeth yn rhywbeth yr oedd mwyafrif y mamau wedi paratoi ar ei gyfer ond, er gwaethaf hyn, cafwyd atborth da o hyd:

Awst 2020 - Glangwili

“Ni allwn fod wedi gofyn am well. Gwnaed i fi deimlo fel mai fi oedd yr unig glaf ar y ward, er fy mod yn ymwybodol iawn bod pawb mor brysur. Nid oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth, a gwnaethant empatheddio gyda fi pan brysurwyd y geni heb fod unrhyw un gyda fi. Ni theimlais ar fy mhen fy hun na’n ofnus o gwbl.”

Roedd mamau’n cydnabod bod staff yn hynod gynorthwyol a charedig:

Ebrill 2021 – Glangwili

“Roedd y fydwraig yn cadw llygad arnaf drwy’r nos ac yn rhedeg y bath i fi. Rwy’n meddwl y cefais i 5 bath i gyd yn ystod y nos, i geisio lleddfu’r boen.”

Dyweddodd eraill wrthym, pan fyddai partneriaid yn gadael, y byddai staff yn ceisio sicrhau bod mamau'n cael cymorth, gan gydnabod y byddai ymwelwyr yno fel arfer i helpu i setlo'r babi. Roedd hyn yn fwy amlwg ymhlith mamau a gafodd enedigaeth fwy cymhleth ac a oedd yn medru symud llai.

Canfu eraill fod eu profiadau'n negyddol, a theimlent fod y cyfyngiadau covid yn rhannol gyfrifol am hyn:

Ionawr 2021 - Glangwili

“Roedd prysuro'r geni ar fy mhen fy hun a bod heb fy ngŵr nes fy mod ar eni yn staen ofnadwy. Bues i'n glaf mewnol am 3 diwrnod wedyn, heb unrhyw gyswilt personol, ac mae hynny wedi cael effaith fawr ar fy ngŵr a minnau.”

Clywsom fod yna adegau pan nad oedd menywod wir eisiau prysuro'r geni, ond roeddent yn teimlo eu bod yn gallu trafod eu pryderon gyda bydwragedd a meddygon, ac y gwrandawyd arnynt. Roeddent yn teimlo eu bod wedi cael digonedd o wybodaeth am yr hyn a fyddai'n digwydd a'r gofal y gallent ei ddisgwyl.

Mewn cyferbyniad, dywedodd rhai menywod wrthym na wrandawyd ar eu pryderon a'u gofidiau, a'u bod dan bwysau i brysuro'r geni, er nad oeddent eisiau hynny mewn gwirionedd:

Gorffennaf 2020 - Glangwili

"Nid oeddwn i eisiau prysuro'r geni. Rhoddwyd pwysau arnaf trwy godi ofn y gallwn ddiodef strôc. Roedd fy mhwysau gwaed yn ymylu ar fod yn uchel, sydd wedi'i gysylltu'n gyson ag ofn ysbytai. Archebwyd cyffuriau i brysuro'r geni heb fy nghaniatâd."

Roedd eraill yn teimlo fod diffyg preifatrwydd yn yr ystafell prysuro'r geni, ac nad oedd yr amgylchedd lle y prysurwyd y geni yn briodol.

Mawrth 2020 - Glangwili

"Roeddwn i'n teimlo bod yr ystafell prysuro'r geni ar y ward eni yn debyg i farchnad da byw. Roedd y gwelyau ac ati yn rhy agos at ei gilydd, gyda llen yn unig yn eich gwahanu oddi wrth y person nesaf. Nid oes unrhyw breifatrwydd o gwbl yng nghamau cynnar eich genedigaeth..."

Genedigaeth Gesaraidd

Cafodd rhai mamau enedigaeth Gesaraidd. Mae genedigaeth Gesaraidd yn golygu bod y babi'n cael ei eni mewn llawdriniaeth, lle mae llawfeddyg yn gwneud toriad ym mol y fam, fel bod y babi'n cael ei eni trwy'r agoriad yn y bol. Mae tua chwarter y babanod yn cael eu geni trwy enedigaeth Gesaraidd.

Mae yna lawer o resymau dros gael genedigaeth Gesaraidd. Weithiau, mae hyn oherwydd bod y babi'n fawr neu heb fod yn y safle cywir ar gyfer genedigaeth trwy'r wain. Neu, gallai fod perygl i'r fam a'r babi os ceisir rhoi genedigaeth trwy'r wain, ac felly mae genedigaeth Gesaraidd wedyn yn opsiwn mwy diogel.

Mae rhai genedigaethau Gesaraidd wedi'u trefnu ymlaen llaw, a gelwir hyn yn aml yn enedigaeth Gesaraidd ddewisol. Mae'r fam yn gwybod pryd y bydd yn mynd i'r ysbyty i gael y babi. Fel rheol, defnyddir anesthetig asgwrn cefn neu epidwral, fel y gall y fam fod yn effro ar gyfer yr enedigaeth, ond gyda'r boen wedi'i reoli'n dda. Fel arfer, gall partneriaid geni fod yn bresennol ar gyfer genedigaeth Gesaraidd ddewisol.

Weithiau, bydd genedigaeth Gesaraidd yn digwydd mewn argyfwng. Gall hyn fod pan fydd problemau'n codi wrth eni'n naturiol, neu pan fydd y babi mewn trallod. Gall hyn fod yn argyfwng a gellir defnyddio anesthetig cyffredinol, ac felly bydd y fam o dan anesthetig pan fydd y babi'n cael ei eni ac, fel rheoli, ni chaniateir i'r partner geni fod yn bresennol.

Unwaith eto, clywsom lawer o bethau cadarnhaol gan fenywod a oedd wedi cael genedigaeth Gesaraidd, hyd yn oed pan oeddent yn brofiadau gofidus a heb eu trefnu. Clywsom droeon fod staff yn gefnogol a'u bod yn rhoi gofal rhagorol a llawer o gysur:

Mai 2020 - Glangwili

“Cefais brofiad da iawn gyda fy nhrydydd plentyn. Ceisiais eni’n naturiol, ond cefais doriad Cesaraidd yn y diwedd ac roedd y tîm bydwragedd a meddygon yn anhygoel, a gwnaethant waith gwych yn gofalu amdanaf i a fy mabi... roedd yn amser mor frawychus â Covid o gwmpas, ond gwnaed i fi deimlo’n gysurus.”

Ebrill 2021 - Glangwili

“Roedd y gofal yn rhagorol, gwnaeth pawb brofiad anodd yn haws.”

**Awst 2020 -
Glangwili**

“Gofal ardderchog, ni allwn fod wedi dymuno gwell.”

Clywsom fod mamau’n nerfus iawn pe bai’n rhaid iddynt gael toriad Cesaraidd, ond bod staff yn ddigynnwrf a chyfeillgar.

I rai mamau, nid oeddent erioed wedi bod yn yr ysbyty nac wedi cael llawdriniaeth o'r blaen ac roeddent yn teimlo'n eithaf pryderus am hyn i gyd, ond roeddent yn teimlo bod y staff caredig a chysurol wedi'u gwneud yn gartrefol yn fuan.

Ebrill 2020 – Glangwili

Roeddwn i wedi trefnu i gael toriad Cesaraid, felly cefais amser i gyrraedd yr ysbyty ac, ar ôl cyrraedd, cefais wely yn syth. Yna cwrddais â rhai o'r bydwagedd, anesthetydd a llawfeddyg, ac roedd pob un ohonynt yn llawn gwybodaeth, yn gysurlon ac yn ddymunol. Roedd yr anesthetydd yn enwedig yn wych ac fe wnaeth i fi chwerthin trwy gydol y toriad Cesaraid. Roedd y fydwraig ar ddyletswydd ar ôl y llawdriniaeth yn wych ac yn wybodus iawn. Fe wnaeth helpu fy mabi i gydio yn fy mron er mwyn bwydo ar ôl iddo gael ei eni. Cafodd fy mhartner aros gyda fi am gyfnod ar ôl y llawdriniaeth, a oedd yn gysur. Cefais fy rhyddhau yn eithaf cyflym y diwrnod wedyn, ar ôl fy asesu i a'r babi. Roedd y profiad yn ystod y llawdriniaeth ei hun yn ddigynnwrf ac yn llawen, roedd yr anesthetydd mor ddoniol fel y chwerthinais i drwy'r cyfan ac nid oeddwn yn poeni am unrhyw beth."

Clywsom yn aml ac yn gyson, pan oedd yn rhaid i famau gael toriad Cesaraidd heb ei drefnu, eu bod yn teimlo bod y staff i gyd yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm, gan ei wneud yn brofiad llyfn iawn, er ei fod yn argyfwng. Dywedodd mamau wrthym fod staff yn gysurol a'u bod yn gallu rhoi llawer o wybodaeth ac esboniadau, gan wneud sefyllfa frawychus yn llawer mwy goddefadwy.

Mawrth 2020 - Glangwili

Ar y cyfan, roedd fy mhrofiad mor galonogol. O ystyried y cymhlethdodau a gefais a arweiniodd at doriad Cesaraidd... roedd y staff i gyd yn ddigynnwrf iawn a gwnaethant fy helpu i ddeall y byddai popeth yn iawn a fy mod i mewn dwylo diogel, er ein bod ni ond ddyddiau i mewn i'r cyfnod clo cyntaf... Roeddwn i wedi trefnu genedigaeth ddŵr, fodd bynnag, rhoddwyd stop ar hynny oherwydd covid, felly roeddwn yn ofnus a braidd yn bryderus... Roedd y bydwragedd yn cadw llygad arnaf yn eithaf aml, ac roeddent wastad, wastad, yn sicrhau fy mod i'n iawn a fy mod yn dod yn fy mlaen fel y dylwn i... Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel iawn eu bod yn gwybod lle'r oeddwn i a beth oedd y ffordd orau ymlaen. Hyd yn oed pan oeddwn i'n gweiddi a rhegi "torrwch e' mas nawr" (Rwy'n ymddiheuro)

Dywedwyd wrthym fod mamau'n teimlo bod y cymorth a gawsant ar ôl iddynt gael toriad Cesaraidd yn llai cyson. Roeddent yn teimlo eu bod weithiau'n cael eu gadael i ymdrechu ar eu pennau eu hunain, ac nid oedd hyn yn gwneud iddynt deimlo'n hyderus, nac yn eu helpu i wella.

Ebrill 2021 – Glangwili

“...Roeddwn i’n teimlo’n unig iawn, heb gefnogaeth, neb yn meddwl dim am osod bwyd / helpu tra fy mod i’n gaeth i’r gwely ar ôl cael toriad Cesaraidd ac yn ceisio bwydo ar y fron / cysuro’r babi. Cadwodd neb lygad arnaf yn ystod y nos, er eu bod yn gwybod fy mod i’n cael trafferth setlo’r babi, ac wedi bod yn bwydo ar y fron am 3 awr. Gwnaed i fi deimlo’n ofnadwy am ofyn am fformiwla pan oedd fy mabi yn dal eisiau bwyd, er iddo fod yn bwydo ar fy mron am oriau.”

Yn aml, roedd mamau’n teimlo nad oedd staff yn deall eu hanghenion arbennig ar ôl cael toriad Cesaraidd ac y gallai mwy o help wedi bod ar gael. Roedd mamau’n gwybod eu bod yn aml yn medru symud llai, ond nid oedd yn ymddangos bod staff yn ystyried hyn. Clywsom fod “disgwyl i famau fwrw ymlaen” a bod absenoldeb partneriaid ac ymwelwyr yn gwneud hyn yn heriol.

Roedd mamau’n teimlo bod yn rhaid iddynt ofyn am help droeon ac nad oedd staff bob amser yn barod i’w helpu. Roedd hyn yn cynnwys helpu i ymolchi, tynnu dillad ag arnynt liw gwaed, gwacáu cathetrau a chael eu gwneud i edrych ac i deimlo’n gyffyrddus yn syth ar ôl geni’r babi.

Ebrill 2021 – Glangwili

“Gwelais wahanol fydwagedd bob tro y cefais apwyntiad trwy gydol fy meichiogrwydd. Nid oedd unrhyw gysondeb. Ni wrandawyd ar fy mhryderon. Pan es i mewn i’r ysbyty ar ôl bod ar ddihun a chael poenau a chwydu am 36 awr (dim ond pan fydd y cyfangiadau’n gyson y cewch fynd i’r ysbyty os ffoniwch chi’n gyntaf), cefais fy rhoi ar ward asesu. Yna cefais fy ngadael mewn ciwbicl ar ward brysur, mewn poen ac yn chwydu. Nid oedd unrhyw un gyda fi oherwydd y cyfyngiadau, a bu’n rhaid i fi fod ar fy mhen fy hun nes fy mod i ar eni. Yn y pen draw, cefais fy symud am fod fy ngŵr i’n cael dod i mewn. Erbyn hyn, roeddwn i mor sâl ac wedi dihydradu ar ôl cael fy ngadael ar fy mhen fy hun a bod yn sâl. Ar ôl ychydig oriau, roedd curiad calon fy mabi’n disgyn o hyd a phenderfynwyd mai’r opsiwn gorau fydd toriad Cesaraid. Ar ôl yr enedigaeth Gesaraid, bu’n rhaid i fy ngŵr adael yn gynnar yn y bore, gan fy mod i’n cael fy symud i ward. Fe’m symudwyd i ward a chefais peth help i wisgo. Ar ôl ychydig oriau, fe’m symudwyd i ward ymhellach i lawr y coridor. Fi oedd yr unig un ar y ward. Ni ddaeth unrhyw fydwagedd i weld a oeddwn i’n iawn, a bu’n rhaid i fi eistedd ar y gadair gan na allwn fynd i mewn i’r gwely heb help. Ni chefais gynnig bwyd o gwbl, a bu’n rhaid i fi ofyn i’r staff arlwyo a allwn i gael bwyd, gan iddi ddweud nad oedd bwyd i fi am nad oeddwn wedi archebu unrhyw beth. Yn ffodus, fe wnaeth hi baratoi rhywbeth i fi. Roeddwn i ar ben fy hun ar y ward ar ôl cael toriad Cesaraid brys ac roeddwn i’n teimlo mor ddiymadferth.”

Roedd mamau newydd yn poeni eu bod yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mor fuan ar ôl cael toriad Cesaraid. Clywsom gan famau'n cael eu rhyddhau drannoeth ac roeddent yn bryderus am hyn. Roeddent yn teimlo bod hyn yn fuan iawn ac y byddai arhosiad hirach wedi rhoi mwy o sicrwydd iddynt.

**“Roedd y profiad geni'n ffantastig.
Roedd yr ôl-ofal yn ofnadwy. Druan â
nhw, roedd y bydwagedd mor brysur.
Roedden nhw'n cael trafferth rhoi
meddyginiaeth i fi bob hyn a hyn ar ôl y
toriad Cesaraid. Yn y pen draw,
roeddwn i gartref o fewn 24 awr i fi eni
fy mab.”**

Dyweddodd rhai wrthym nad oedd yn ymddangos bod y trefniadau rhyddhau wedi'u cyd-drefnu'n dda iawn. Er enghraifft, aeth un fam adref heb y pigladau yr oedd eu hangen arni a sylwodd neb am beth amser. Ni roddwyd unrhyw gyngor ar boen i un fam pan adawodd hi'r ysbyty a bu'n rhaid iddi drefnu ei meddyginiaeth ei hunan. Cafodd mam arall ei rhyddhau ar ddydd Gwener, 24 awr ar ôl genedigaeth Gesaraid, ac yna ni welodd fydwraig nes y dydd Mawrth canlynol, oherwydd nad oedd y gwaith papur wedi'i wneud yn iawn. Gwnaeth hyn i famau newydd deimlo'n fwy nerfus ynghylch mynd adref mor fuan ar ôl eu genedigaeth Gesaraid.

Roedd rhai mamau'n teimlo bod eu genedigaeth Gesaraidd wedi bod yn drawmatig ac wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl. Yn aml, roedd y teimladau hyn yn gymysg â'r siom oherwydd eu bod wedi eisiau geni'n naturiol.

Gorffennaf 2020 – Glangwili

“Roedd y profiad geni'n siomedig gan y bu'n rhaid i fi gael toriad Cesaraid. Roedd y gofal a gefais i a'r babi yn anhygoel.”

Dyweddodd mamau wrthym y bu problemau gyda meddyginiaeth lleddfuo poen amserol yn ystod yr enedigaeth ac na ddilynwyd eu cynllun geni bob amser. Roedd hyn yn golygu bod gan rai mamau atgofion ingol o'u genedigaeth, yn hytrach na rhai hapus.

Lle mae mamau'n cael genedigaeth drawmatig neu annisgwyl, mae'n bosib cael sesiwn 'ôl-drafod' gyda bydwraig, i sicrhau bod cwestiynau'n cael eu hateb. Nid ar gyfer mamau sydd wedi cael genedigaeth Gesaraidd yn unig y mae hyn. Mae rhai mamau'n ystyried bod y sesiynau hyn yn gynorthwyol, gan eu bod yn caniatáu iddynt ddeall a phrosesu'r hyn ddigwyddodd yn ystod eu genedigaeth. Fodd bynnag, clywsom hefyd;

Tachwedd 2020 – Glangwili

Rydw i wedi gofyn am sesiwn ôl-drafod ers yr enedigaeth, ond nid ydw i wedi cael un o hyd.”

Genedigaeth â chymorth

Mae genedigaeth â chymorth yn un a all fod ychydig yn fwy cymhleth na genedigaeth naturiol trwy'r wain, oherwydd efallai y bydd angen ychydig o gymorth ychwanegol ar y fam i eni'r babi. Gall hyn olygu defnyddio gefel geni neu ddyfais sugno siâp cwpan, ac weithiau gall olygu cael y babi mewn theatr obstetrig, yn hytrach na mewn ystafell eni.

Clywsom nad oedd llawer o fenywod yn rhagweld y byddent yn cael genedigaeth â chymorth neu enedigaeth gymhleth, ac mae'n bosib eu bod wedi teimlo rhywfaint o siom a sioc ar y pryd:

Ebrill 2021 – Glangwili

“Roedd y gofal yn ardderchog. Nid oedd yr enedigaeth yn wych, gan y bu'n rhaid i fi gael genedigaeth â chymorth, ond nid yw hynny'n adlewyrchiad o safon y gofal a gefais.”

Esboniodd mamau eu bod yn teimlo'n siomedig neu'n fflat am nad oeddent wedi cael genedigaeth naturiol trwy'r wain, ond roedd y mwyafrif yn teimlo bod y bydwragedd wedi bod yn gefnogol, yn ofalgar ac yn dosturiol. Roedd rhai mamau'n teimlo bod genedigaeth trwy'r wain â chymorth yn dal i fod yn well na'u profiad blaenorol o doriad Cesaraid:

Gorffennaf 2020 – Glangwili

“Roedd fy mhrofiad geni’n dda iawn. Roedd yn rhyddhad cael geni’n naturiol, ar ôl cael toriad Cesaraidd yn flaenorol. Roeddwn i’n hapus i allu mynd adref o fewn oriau i fi eni’r babi. Roedd y bydwragedd y tro hwn yn anhygoel ac yn arbennig am fy nghynorthwyo trwy’r enedigaeth gyfan.”

Mehefin 2020 - Glangwili

“Roedd fy ngofal mamolaeth yn ardderchog. Cefais enedigaeth anodd, ond ni allwn fod wedi dod trwyddi heb y staff rhyfeddol.”

Bwydo ar y fron

Clywsom lawer iawn am fwydo ar y fron yn ein harolwg. Cydnabyddir mai bwydo ar y fron sy'n rhoi'r maeth gorau i fabanod ac mae mwyafrif y mamau'n awyddus i roi cynnig ar fwydo ar y fron i ddechrau. Fodd bynnag, clywsom sylwadau negyddol yn gyson gan famau ynghylch faint o gymorth a gawsant i ddysgu sut i fwydo ar y fron ac i ddelio â phroblemau'n ymwneud â bwydo ar y fron:

Tachwedd 2020, Glangwili

"Ni chefais ddechrau rhwydd gyda bwydo ar y fron. Fodd bynnag, gadewais yr ysbyty â chynllun A i fwydo ar y fron yn unig, ond heb gynllun B neu felly, pan aeth pethau o chwith gartref, nid oeddwn i'n gwybod beth i geisio ei wneud nesaf. Ni thrafodwyd gwahanol ffyrdd o fwydo, h.y. cyfuno â fformiwla neu ddefnyddio pwmp."

Mai 2020 - Glangwili

"Roedd cymorth gyda bwydo ar y fron yn brin iawn ar ôl geni, a theimlais ei fod yn fryslog ac yn aneffeithiol."

Mawrth 2020 - Glangwili

“Roeddwn i’n ysu am gael bwydo ar y fron. Yn anffodus, cefais i fawr ddim cymorth yn yr ysbyty. Daeth neb i arsylwi arnaf yn bwydo a phan ofynnais i am help cefais fformiwla. Siaradais i â’r fydwraig a ymwelodd â fi ar ôl fy ngenedigaeth (nid y fydwraig a oedd gen i yn ystod fy meichiogrwydd) ac ni chynigodd unrhyw gyngor ar fwydo ar y fron, nac arsylwi arnaf yn bwydo. Ni allai’r babi gydio yn fy mron ac roedd yn araf yn rhoi pwysau ymlaen, a fformiwla oedd ei hunig awgrym. Bu’n rhaid i fi geisio cymorth fy hun, a diolch byth fe wnes i lwyddo, gyda llawer o anhawster, i fwydo ar y fron am 14 wythnos ac rwy’n dal i wneud.”

Roedd rhai mamau’n teimlo hefyd nad oedd y cyfyngiadau ar ymwelwyr yn helpu, gan y gallent fod wedi troi at eu teulu neu ffrindiau am gymorth gyda bwydo ar y fron.

Medi 2020 - Glangwili

“Dim help gyda bwydo ar y fron yn yr ysbyty (dim help yr oedd ei angen oherwydd na chaniatawyd ymwelwyr).”

Gallai mamau gydnabod eu hunain eu bod yn cael trafferth gyda thechneg bwydo ar y fron, ond nid oedd yn ymddangos bod unrhyw un ar gael i helpu. Yn hytrach, cawsant eu gadael ar eu pennau eu hunain, a rhoddodd rai'r gorau iddi gan eu bod yn teimlo na allent ei wneud.

Hyd yn oed pan oedd cymorth ar gael, dywedodd rhai mamau wrthym ei fod yn teimlo'n fryslog ac na chawsant ddigon o amser i fagu'r hyder, yr oedd ei angen arnynt i barhau i fwydo ar y fron, a chafodd hyn effaith hirdymor ar rai:

Mai 2020

“Rwy’n meddwl fy mod i wedi dioddef o iselder ar ôl geni wedi cael fy machgen bach. Roedd gen i ofn dweud wrth unrhyw un. Fe wnes i rhyw led awgrymu hyn wrth fy ymwelydd iechyd, ond ni chefais gynnig unrhyw fath o help. Roedd fy machgen bach bron yn flwydd oed a chefais fy rhoi ar feddyginiaeth iselder. Rwy’n teimlo mai’r prif reswm dros hyn oedd na allwn fwydo ar y fron, roeddwn i’n teimlo fy mod i’n fethiant. Rhoddais gynnig arni gartref ar fy mhen fy hun ond, yr ail dro, daeth gwaed o fy mron, felly rhoddais y gorau iddi er mwyn fy iechyd fy hun.”

Clywsom y byddai cymorth cynharach i fwydo ar y fron wedi bod yn gynorthwyol, fel y gallai mamau newydd sefydlu bwydo ar y fron cyn mynd adref.

Dywedodd un fam i efeilliaid wrthym

“Byddwn i wedi gwerthfawrogi asesiad bwydo ar y fron llawn ac atgyfeiriad at y tîm Bwydo Babanod yn gynt na chefais i. Ni soniwyd amdano nes y 6^{ed} diwrnod ac erbyn hynny roedd babanod eisoes wedi colli pwysau, roedd arnynt glefyd melyn ac roedd angen eu derbyn i’r ysbyty.”

Roedd rhai mamau’n teimlo nad oedd staff penodol mor gynorthwyol ag y gallent wedi bod. Dywedodd un fam nad oedd y fydwraig ar ddyletswydd gyda’r nos yn fodlon ei helpu i gael y babi i gydio yn ei bron, a dywedodd wrthi am roi potel i’w babi yn hytrach. Cafodd mam arall broblemau hefyd i gael cymorth gyda’r nos ac roedd yn gwasgu’r botwm i gael cymorth yn ei dagrau.

...yn y cyfamser, nid oedd y cymorth i fwydo ar y fron yn dda iawn. Nid oedd yn ymddangos bod y fydwraig a’r nyrs yn gwybod llawer am fwydo ar y fron, na sut i’n cynorthwyo i gael y babi i gydio’n dynn yn y fron o’r dechrau. O ganlyniad, cawsom drafferth sefydlu bwydo ar y fron. Fodd bynnag, cawsom weld meddyg ymgynghorol bwydo ar y fron ychydig ddyddiau’n ddiweddarach, a’n helpodd i ddal ati.

Rhagfyr 2020 - Glangwili

“Roedd y gweithwyr cymorth gofal iechyd ar y ward yn ardderchog ond, er gwaethaf hyn, roedd yn brofiad hynod ynysig a llethol. Mae’r diffyg gwybodaeth a chymorth am fwydo ar y fron yn peri pryder. Roeddwn i’n hynod benderfynol o fwydo ar y fron ond, yn aml, roeddwn i’n cael trafferth cael y babi i gydio yn y fron, ond roedd staff y ward yn hapus gan eu bod yn gallu gweld bod y babi’n cydio ar y ddwy ochr, er nad oedd ei safle a’i afael yn wych. Ni chefais gynnig cael fy atgyfeirio at y staff bwydo ar y fron, ond fe gafodd mam arall, er nad oedd hi’n bwydo ar y fron, ond roedd hi eisiau ystyried gwneud. Mae angen mwy o gymorth gyda bwydo ar y fron yn yr ysbyty ac yn y gymuned, yn enwedig ar y dechrau. Pan siaradais i â fy mydwagedd cymunedol am y trafferthion gyda bwydo ar y fron, eu cyngor nhw oedd i geisio dal ati. Yr unig berson a oedd yn gallu cynnig cymorth a chyngor da oedd yr ymwelydd iechyd ond, erbyn i ni gael ei gweld, roedd fy mabi ar y botel ac mae hyn yn peri gofid i fi hyd heddiw, gan fy mod i wedi eisiau bwydo fy mabi ar y fron am fwy nag wythnos neu ddwy.”

Clywsom rai sylwadau cadarnhaol am gymorth i fwydo ar y fron. Lle roedd mamau wedi cael cymorth i sefydlu bwydo ar y fron yn yr ysbyty, yn gyffredinol, roeddent yn teimlo bod hyn wedi eu helpu i ddatrys rhai o'r anawsterau a gawsant i ddechrau a rhoi hyder iddynt i ddal ati i fwydo ar y fron. Fodd bynnag, prin oedd y sylwadau cadarnhaol hyn:

Mai 2021 - Glangwili

“Roedd y cyngor ar fwydo ar y fron yn ardderchog ac roedd y cymorth i fwydo yn wych.”



Gofal ar ôl geni

Mae gofal ar ôl geni yn rhychwantu'r cyfnod ar ôl geni babi. Gall hyn fod yr amser yn syth ar ôl geni, yn yr ysbyty yn ogystal â gartref, yn y gymuned.

Rydym wedi clywed am rai profiadau ar ôl geni eisoes yn yr adroddiad hwn, gan famau a gafodd enedigaeth naturiol, genedigaeth wedi'i brysuero, genedigaeth Gesaraidd a genedigaeth â chymorth. Roedd yna niferus brofiadau cadarnhaol a chlywsom fod mamau'n gyffredinol yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal.

Tachwedd 2020 – Glangwili

“Y gofal gorau a gefais oedd y gofal ar ôl geni, pan oedd gwir angen help arnaf, roedd y bydwagedd mor ffantastig.”

Fodd bynnag, roedd hefyd yn faes a gafodd llawer o feirniadaeth gan famau newydd. Clywsom fod mamau'n teimlo heb gefnogaeth ac nad oedd digon o staff i'w helpu ac i roi'r gofal yr oedd ei angen arnynt.

Dywedodd llawer o famau wrthym y byddent wedi elwa o gael eu partner geni i aros gyda nhw am fwy o amser, ar ôl geni. Roeddent yn teimlo y byddai eu partner geni, o dan amgylchiadau arferol, wedi aros i'w cefnogi ac felly efallai na fyddai bydwagedd fel rheol yn darparu'r math hwn o gymorth.

Medi 2020 – Llwynhelyg

“Roedd y gofal a gefais i a fy mhlentyn heb ei eni yn ardderchog. Fodd bynnag, nid oedd y gofal ar ôl geni cystal.”

Clywsom hefyd rai achosion lle'r oedd y gofal yn annerbyniol. Dywedodd mamau wrthym nad oeddent wedi cael help i deimlo'n lân neu ymolchi ar ôl yr enedigaeth, ar ôl genedigaeth hir yn aml neu enedigaeth annisgwyl a thrawmatig. Roedd hyn yn golygu eu bod yn teimlo cywilydd a heb urddas yn gyhoeddus. Roeddent yn teimlo na ddylai staff fod wedi eu gadael yn y sefyllfa hon ac y dylent fod wedi dangos mwy o dosturi:

Glangwili

Credaf fy mod wedi fy rhyddhau yn gyflym - 9 awr ar ôl genedigaeth fy efeilliaid es i adref ac es i ddim i ward ôl-enedigol. Roeddwn yn hapus i wneud hyn ar y pryd gan fod y gobaith o fod ar fy mhen fy hun gydag efeilliaid newydd-anedig yn frawychus, fodd bynnag, wrth edrych yn ôl, byddai'n well gennyf iddynt gynghori fy mod wedi mynd i'r ward ôl-enedigol i helpu i sefydlu bwydo ar y fron a allai fod wedi atal aildderbyn ar ddiwrnod 6

Awst 2020 – Glangwili

“Mae cael eich gadael mewn pyllau o’ch gwaed eich hun pan na allwch gerdded neu symud, hyd yn oed ar ôl i chi ddweud wrth fydwragedd droeon, yn codi cywilydd ac yn ddiraddiol.

Aethpwyd â fi i gael sgan tra fy mod wedi fy ngorchuddio yn fy ngwaed fy hun oherwydd ‘byddwn i’n colli fy amser i gael sgan’, a gadawyd i fi eistedd mewn ystafell aros gyhoeddus.”

Hydref 2020 – Glangwili

“Ar y ward eni, cefais fy ngadael i fwrw ati ar ôl geni fy mabi, heb unrhyw gymorth o gwbl! Roeddwn i wedi blino’n lân am nad oeddwn wedi cysgu ers 3 diwrnod, wrth lwc, roedd fy mhartner yno gan fy mod i’n rhy flinedig i fagu fy mabi hyd yn oed! Daeth bydwraig newydd ataf, a gofynnais a allwn i gael cawod am fy mod i’n waed i gyd, ond fe wrthododd a dywedodd y gallwn gael un ar ward Dinefwr!... a byddai’n fy helpu unwaith i fi gyrraedd y ward! Ond na, fe adawodd fi yno ac ni wnaeth fy helpu. Roeddwn i braidd yn gallu cerdded, a bu’n rhaid i fi fynd am gawod gyda fy mabi newydd-anedia! ...”

Derbyniwyd nifer o sylwadau negyddol am ddiffyg cyfleusterau i gael cawod yn ysbyty Glangwili, ac mae'n ymddangos bod hyn wedi cael effaith ar nifer o famau newydd. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ymchwilio i'r mater hwn ar frys, wrth i ganlyniadau ein harolwg ein cyrraedd.

Clywsom y teimlwyd yn aml bod prinder staff ar y ward ar ôl geni, a bod pawb yn brysur bob amser. Roedd hyn yn golygu nad oedd amser o hyd i famau newydd holi cwestiynau. Roedd mamau am y tro cyntaf yn teimlo bod hyn wedi cael effaith fawr arnynt. Yn aml, roeddent yn cael eu gadael heb wybod beth yr oeddent i fod i'w wneud ac yna'n teimlo eu bod yn cael pryd o dafod gan staff yn ddiweddarach.

Dywedodd eraill wrthym eu bod yn teimlo y bu gormod o bwyslais ar gael menywod allan o'r ysbyty'n gyflym ac efallai bod hon hefyd yn sefyllfa a wnaeth ddeillio o'r pandemig:

Ionawr 2021 YCG

